ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

First Release
Datganiad Cyntaf

SDR 119/2011 | 13 Gorffennaf 2011

# Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru, 2010


Mae'r Datganiad Cyntaf Ystadegol hwn yn cyflwyno gwybodaeth gryno o'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lythrennedd a rhifedd. Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod 2010, gan asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd cyffredinol oedolion (16-65 oed) yng Nghymru (drwy gyfrwng y Saesneg), a sgiliau llythrennedd Cymraeg oedolion sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru. Cynlluniwyd yr arolygon cymaint ag oedd yn ymarferol bosibl i ailadrodd arolygon tebyg a gynhaliwyd yn 2004/05, er mwyn ystyried newidiadau o ran lefelau sgiliau.

Caiff sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hasesu yn ôl pum safon genedlaethol: Lefel Mynediad 1, Lefel Mynediad 2, Lefel Mynediad 3, Lefel 1 a Lefel 2. Gweler y Diffiniadau am ragor o wybodaeth am y safonau hyn. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg llythrennedd a rhifedd cyffredinol, o'r arolwg Saesneg, yn y datganiad hwn yn gyntaf, gyda'r wybodaeth Gymraeg i ddilyn. Cyhoeddir adroddiad dadansoddi manylach yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

Canlyniadau cyffredinol (o'r arolwg Saesneg):

- ***Bu gwelliant o ran lefelau llythrennedd***: aseswyd bod gan 12 y cant o oedolion lythrennedd Lefel Mynediad neu'n is, gostyngiad o 25 y cant yn 2004. Aseswyd bod 29 y cant o oedolion ar Lefel 1 (37 y cant yn 2004) a 59 y cant ar Lefel 2 neu'n uwch (cynnydd o 38 y cant yn 2004).
- ***Prin yw'r newid o ran lefelau rhifedd***: aseswyd bod gan 51 y cant o oedolion rifedd Lefel Mynediad neu'n is, canran debyg i'r 53 y cant yn 2004. Aseswyd bod 29 y cant ar Lefel 1 (25 y cant yn 2004) a 21 y cant ar Lefel 2 neu'n uwch (22 y cant yn 2004).
- ***Roedd lefelau llythrennedd a rhifedd yn uwch ymhlith pobl gyflogedig, y rheini â lefelau incwm uchel yn y cartref, y rheini â chymwysterau uwch, ac ymhlith y grwpiau oedran hŷn.***

**Siart 1: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd a Rhifedd**




**Ystadegydd:** Rachel Lloyd **Ffôn:** 029 2082 3357 **E-bost:** post16ed.stats@wales.gsi.gov.uk
**Diweddariad Nesaf:** Ddim yn gynnyrch rheolaidd
**Twitter:** www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

Cyhoeddwyd gan Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 3332**
**www.cymru.gov.uk/ystadegau**


Issued by Statistical Directorate
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**
**www.wales.gov.uk/statistics**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Rhyw

- Aseswyd bod gan gyfran ychydig yn uwch o ddynion (13 y cant) na merched (11 y cant) lythrennedd Lefel Mynediad neu'n is. Fodd bynnag, roedd dynion yn fwy tebygol o gyflawni Lefel 2 neu'n uwch (60 y cant, o gymharu â 57 y cant o ferched).
- Aseswyd bod gan ddynion sgiliau rhifedd uwch na merched. Aseswyd bod 60 y cant o ferched ar Lefel Mynediad neu'n is o gymharu â 41 y cant o ddynion. Roedd 29 y cant o ddynion yn gymwys hyd at Lefel 2 neu'n uwch o gymharu â 13 y cant o ferched.
- O gymharu â 2004, mae lefelau llythrennedd wedi gwella i ddynion a merched, ond prin yw'r newid o ran lefelau rhifedd.


**Siart 2: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd a Rhifedd, yn ôl rhyw**




## Grwpiau Oedran

- Pobl ifanc 16-19 oed oedd fwyaf tebygol o feddu ar sgiliau llythrennedd Lefel Mynediad neu'n is, gydag 20 y cant o'r grŵp oedran yn cael eu hasesu ar y lefel hon. Roedd y gyfran a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch ar ei huchaf ymhlith pobl 25-44 oed (64 y cant).
- Pobl ifanc 16-24 oed oedd fwyaf tebygol o feddu ar sgiliau rhifedd Lefel Mynediad neu'n is, (aseswyd 60 y cant o bobl ifanc 16-19 oed a 56 y cant o bobl 20-24 oed ar y lefel hon.) Roedd y gyfran a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch ar ei huchaf ymhlith pobl 25-54 oed (23 y cant).


**Siart 3: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd a Rhifedd, yn ôl grŵp oedran**



### Cyflogaeth

- Roedd oedolion di-waith yn fwy tebygol o feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd Lefel Mynediad neu'n is na'r rheini a oedd yn gyflogedig.
- Mae lefelau llythrennedd ar gyfer pobl gyflogedig a phobl ddi-waith wedi gwella o gymharu â 2004. Mae cyfran yr oedolion di-waith yr aseswyd bod ganddynt sgiliau llythrennedd Lefel Mynediad wedi gostwng o 36 y cant yn 2004 i 18 y cant yn 2010, ac mae'r ganran ar gyfer oedolion cyflogedig wedi gostwng o 19 y cant yn 2004 i 9 y cant yn 2010.
- Prin yw'r newid o ran sgiliau rhifedd i bobl gyflogedig a phobl ddi-waith ers 2004. Mae cyfran yr oedolion di-waith yr aseswyd bod ganddynt sgiliau Lefel Mynediad wedi gostwng o 67 y cant yn 2004 i 62 y cant yn 2010.


**Siart 4: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd a Rhifedd, yn ôl statws cyflogaeth**




### Incwm Cartref

- Roedd y rheini â lefelau is o incwm yn y cartref yn fwy tebygol o feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd is.
- Roedd gan 22 y cant o'r rheini yr aseswyd bod ganddynt incwm cartref o lai na £15,000 sgiliau llythrennedd ar lefel Mynediad neu'n is, o gymharu â dim ond 1 y cant o'r rheini ag incwm o £50,000 neu fwy.
- Roedd gan 69 y cant o'r rheini yr aseswyd bod ganddynt incwm cartref o lai na £15,000 sgiliau rhifedd ar lefel Mynediad neu'n is.


**Siart 5: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd a Rhifedd, yn ôl incwm y cartref cyn treth**




## Lefel Cymhwyster

- Roedd y rheini â lefelau cymhwyster uwch yn fwy tebygol o feddu ar sgiliau llythrennedd a rhifedd uwch.
- Ar bob lefel cymhwyster, roedd lefelau llythrennedd yn well na lefelau rhifedd.
- Roedd gan 82 y cant o'r rheini â chymhwyster uchaf, sef lefel gradd, sgiliau llythrennedd ar Lefel 2 neu'n uwch, o gymharu â 36 y cant ar gyfer rhifedd.

**Siart 6: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl cymhwyster uchaf**




**Siart 7: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Rhifedd, yn ôl cymhwyster uchaf**




## Sgiliau Llythrennedd Cymraeg

Yn ogystal ag asesu lefelau llythrennedd a rhifedd drwy gyfrwng y Saesneg, asesodd yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru sgiliau llythrennedd Cymraeg oedolion sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru. Dylid ystyried yr asesiad llythrennedd Cymraeg yn annibynnol ar lythrennedd cyffredinol (Saesneg). Roedd y ddau asesiad yn gwbl unigol ac ar wahân, ac o ystyried y gwahaniaethau helaeth o ran strwythur y Gymraeg a'r Saesneg a'r defnydd ohonynt, nid oes cyfatebiaeth uniongyrchol o reidrwydd rhwng lefelau llythrennedd Cymraeg a Saesneg. Amlygir gwahaniaethau pellach o ran y fethodoleg rhwng y ddau arolwg yn y Datganiad Ansawdd.

Cwblhawyd arolwg llythrennedd Cymraeg 2010 gan y rheini a nododd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n gymharol dda, ond roedd arolwg 2004 hefyd yn cynnwys y rheini a nododd eu bod yn siarad rhywfaint o Gymraeg. Ar wahân i'r gwahaniaeth diffiniadol bach hwn, mae angen ystyried hefyd nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn gyson, a'i fod yn anochel yn oddrychol gan fod unigolion yn pennu eu lefel rhuglder eu hunain o ran siarad Cymraeg. Nodir ffigurau cymharol ar gyfer arolwg 2004, ond ni allwn fod yn sicr bod y lefelau o ran y gallu i siarad Cymraeg yn gyson rhwng y ddau sampl, a gallai hyn effeithio ar lefel y newid a welwyd.

- Yn 2010, dosbarthwyd 36 y cant o'r rheini a gymerodd ran yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg fel Lefel Mynediad neu'n is, (34 y cant yn 2004).
- Dosbarthwyd 37 y cant ar lefel 2 neu'n uwch (45 y cant yn 2004).


**Siart 8: Canran y siaradwyr Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd**



**Lefel y gallu i siarad Cymraeg**

- Ymhlith y rheini a oedd yn ystyried eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl, aseswyd bod 25 y cant ar lefel Mynediad neu'n is (14 y cant yn 2004). Aseswyd bod 45 y cant o bobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ar Lefel 2 neu'n uwch (61 y cant yn 2004).
- Ymhlith y rheini a oedd yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn gymharol dda, aseswyd bod 70 y cant ar lefel Mynediad neu'n is.


**Siart 9: Canran y siaradwyr Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg**




**Rhyw**

- Aseswyd bod gan ferched sgiliau llythrennedd Cymraeg uwch na dynion.
- Nodwyd bod 42 y cant o'r dynion o gymharu â 31 y cant o'r merched a gymerodd ran yn yr asesiad llythrennedd Cymraeg ar lefel Mynediad neu'n is.
- Aseswyd bod 43 y cant o ferched ar Lefel 2 neu'n uwch, o gymharu â 31 y cant o ddynion.


**Siart 10: Canran y siaradwyr Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl rhyw**



### Grwpiau Oedran

- Pobl ifanc 16-19 oed oedd fwyaf tebygol o feddu ar sgiliau llythrennedd Cymraeg Lefel Mynediad neu'n is, gyda 46 y cant o'r grŵp oedran yn cael eu hasesu ar y lefel hon. Roedd y gyfran a aseswyd ar Lefel 2 neu'n uwch ar ei huchaf ymhlith pobl 35-44 oed (44 y cant).

**Siart 11: Canran y siaradwyr Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl grŵp oedran**



**Tabl 1: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd a Rhifedd**

| | Llythrennedd | | Rhifedd | |
|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 |
| Lefel Mynediad 1 neu'n is | 3 | 4 | 5 | 7 |
| Lefel Mynediad 2 | 2 | 3 | 17 | 20 |
| Lefel Mynediad 3 | 7 | 18 | 29 | 26 |
| Lefel Mynediad | 12 | 25 | 51 | 53 |
| Lefel 1 | 29 | 37 | 29 | 25 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 59 | 38 | 21 | 22 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 2115 | 2555 | 2119 | 2555 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 2116 | 2555 | 2117 | 2555 |

**Tabl 2: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl rhyw**

| | Pawb | | Dynion | | Merched | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 |
| Lefel Mynediad | 12 | 25 | 13 | 25 | 11 | 24 |
| Lefel 1 | 29 | 37 | 27 | 35 | 32 | 39 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 59 | 38 | 60 | 40 | 57 | 37 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 2115 | 2555 | 1041 | 1257 | 1075 | 1298 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 2116 | 2555 | 882 | 1092 | 1234 | 1463 |

**Tabl 3: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Rhifedd, yn ôl rhyw**

| | Pawb | | Dynion | | Merched | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 |
| Lefel Mynediad | 51 | 53 | 41 | 46 | 60 | 61 |
| Lefel 1 | 29 | 25 | 31 | 24 | 27 | 25 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 21 | 22 | 29 | 30 | 13 | 14 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 2119 | 2555 | 1043 | 1257 | 1075 | 1298 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 2117 | 2555 | 884 | 1092 | 1233 | 1463 |

**Tabl 4: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl grŵp oedran**

| | 2010 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 16-19 | 20-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-65 |
| Lefel Mynediad | 20 | 9 | 12 | 8 | 11 | 15 |
| Lefel 1 | 29 | 30 | 24 | 28 | 31 | 34 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 51 | 61 | 64 | 64 | 58 | 52 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 216 | 147 | 358 | 443 | 416 | 535 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 181 | 212 | 361 | 440 | 438 | 480 |

**Tabl 5: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Rhifedd, yn ôl grŵp oedran**

| | 2010 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 16-19 | 20-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-65 |
| Lefel Mynediad | 60 | 56 | 47 | 46 | 47 | 54 |
| Lefel 1 | 25 | 27 | 30 | 31 | 31 | 28 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 15 | 17 | 23 | 23 | 23 | 18 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 213 | 146 | 358 | 443 | 416 | 540 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 178 | 212 | 362 | 441 | 438 | 485 |

**Tabl 6: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl statws cyflogaeth**

| | Cyflogedig | | Di-waith | |
|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 |
| Lefel Mynediad | 9 | 19 | 18 | 36 |
| Lefel 1 | 27 | 36 | 34 | 38 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 63 | 44 | 49 | 26 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1417 | 1718 | 698 | 837 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 1292 | 1586 | 824 | 969 |

**Tabl 7: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Rhifedd, yn ôl statws cyflogaet**

| | Cyflogedig | | Di-waith | |
|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 |
| Lefel Mynediad | 45 | 47 | 62 | 67 |
| Lefel 1 | 32 | 28 | 24 | 18 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 24 | 25 | 14 | 15 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 1415 | 1718 | 704 | 837 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 1288 | 1586 | 829 | 969 |

**Tabl 8: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl incwm y cartref cyn treth**

| | 2010 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Llai na £15,000 | £15,000 i £24,999 | £25,000 i £39,999 | £40,000 i £49,000 | £50,000 neu fwy |
| Lefel Mynediad | 22 | 12 | 6 | 5 | 1 |
| Lefel 1 | 36 | 32 | 32 | 23 | 17 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 42 | 56 | 62 | 72 | 82 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 398 | 263 | 391 | 165 | 256 |

**Tabl 9: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Rhifedd, yn ôl incwm y cartref cyn treth**

| | 2010 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Llai na £15,000 | £15,000 i £24,999 | £25,000 i £39,999 | £40,000 i £49,000 | £50,000 neu fwy |
| Lefel Mynediad | 69 | 59 | 48 | 39 | 19 |
| Lefel 1 | 22 | 27 | 30 | 35 | 40 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 8 | 14 | 22 | 26 | 42 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 398 | 263 | 391 | 165 | 256 |

**Tabl 10: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl cymhwyster uchaf**

| | 2010 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lefel gradd | Cymhwyster Addysg Uwch nad yw'n cyfateb i radd | Cymhwyster Lefel 3 | Cymhwyster Lefel 2 | Cymhwyster Lefel 1 neu'n is | Arall anhysbys | Dim cymhwyster |
| Lefel Mynediad | 2 | 4 | 7 | 10 | 18 | 27 (r) | 33 |
| Lefel 1 | 16 | 25 | 34 | 36 | 40 | 44 (r) | 37 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 82 | 71 | 59 | 55 | 42 | 30 (r) | 30 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 478 | 271 | 316 | 245 | 205 | 47 | 364 |

**Tabl 11: Canran yr oedolion a aseswyd ar bob lefel Rhifedd, yn ôl cymhwyster uchaf**

| | 2010 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Lefel gradd | Cymhwyster Addysg Uwch nad yw'n cyfateb i radd | Cymhwyster Lefel 3 | Cymhwyster Lefel 2 | Cymhwyster Lefel 1 neu'n is | Arall anhysbys | Dim cymhwyster |
| Lefel Mynediad | 24 | 35 | 52 | 56 | 69 | 70 (r) | 81 |
| Lefel 1 | 40 | 38 | 30 | 25 | 20 | 23 (r) | 15 |
| Lefel 2 neu'n uwch | 36 | 27 | 18 | 19 | 11 | 6 (r) | 4 |
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 476 | 272 | 320 | 246 | 206 | 48 | 363 |

(r) Diwygiedig ar 25 August 2011.

**Tabl 12: Canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd**

| | Llythrennedd | |
|---|---|---|
| | 2010 | 2004 |
| Lefel Mynediad 1 neu’r | 3 | 2 |
| Lefel Mynediad 2 | 12 | 15 |
| Lefel Mynediad 3 | 21 | 17 |
| Lefel Mynediad | 36 | 34 |
| Lefel 1 | 26 | 22 |
| Lefel 2 neu’n uwch | 37 | 45 |
| Sylfaen wedi’i phwysoli | 1000 | 1363 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 1001 | 1363 |

**Tabl 13: Canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg**

| | Rhugl | | Eithaf da / Eithaf da / Ychydig | |
|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2004 | 2010 | 2004 |
| Lefel Mynediad | 26 | 14 | 70 | 66 |
| Lefel 1 | 29 | 25 | 17 | 17 |
| Lefel 2 neu’n uwch | 45 | 61 | 12 | 18 |
| Sylfaen wedi’i phwysoli | 772 | 845 | 229 | 518 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 784 | 772 | 216 | 591 |

**Tabl 14: Canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl rhyw**

| | Pawb | Dynion | Merched |
|---|---|---|---|
| | 2010 | 2010 | 2010 |
| Lefel Mynediad | 36 | 43 | 31 |
| Lefel 1 | 26 | 27 | 26 |
| Lefel 2 neu’n uwch | 37 | 31 | 43 |
| Sylfaen wedi’i phwysoli | 1001 | 453 | 547 |
| Sylfaen heb ei phwysol | 1000 | 415 | 585 |

**Tabl 15: Canran yr oedolion sy'n siarad Cymraeg a aseswyd ar bob lefel Llythrennedd, yn ôl grŵp oedran**

| | 16-19 | 20-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-65 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Mynediad | 46 | 42 | 38 | 30 | 33 | 33 |
| Lefel 1 | 28 | 22 | 25 | 25 | 30 | 27 |
| Lefel 2 neu’n uwch | 25 | 36 | 37 | 44 | 37 | 41 |
| Sylfaen wedi’i phwysoli | 150 | 104 | 163 | 195 | 164 | 220 |
| Sylfaen heb ei phwysoli | 108 | 83 | 156 | 182 | 148 | 320 |

## Datganiad Ansawdd

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi agweddau allweddol ar ansawdd data'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010

**A. Cywirdeb**

Roedd Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010 yn cynnwys dwy elfen:

- Arolwg i asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd sampl cenedlaethol o oedolion (16-65 oed) yng Nghymru, drwy gyfrwng y Saesneg;
- Arolwg i asesu sgiliau llythrennedd oedolion (16-65 oed) sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd y ddwy elfen yn gwbl unigol ac ar wahân i'w gilydd, oherwydd natur yr asesiadau a gynhaliwyd.

Roedd dwy elfen ar wahân i'r ymatebydd ymgymryd â hwy o fewn y ddau arolwg uchod:

- Holiadur cyd-destunol, yn cynnwys cwestiynau ar agweddau a demograffeg a ofynnwyd i'r ymatebydd gan gyfwelydd;
- Naill ai un neu ddau asesiad i'w cwblhau gan yr ymatebydd ei hun o dan oruchwyliaeth y cyfwelydd, a oedd yn asesu lefelau llythrennedd a rhifedd.

Roedd yn ofynnol i'r ymatebwyr a oedd yn ymgymryd â'r arolwg Saesneg gwblhau dau asesiad ar gyfrifiadur, sef un asesiad llythrennedd ac un asesiad rhifedd drwy gyfrwng y Saesneg. Yn ogystal â hyn, roedd yn ofynnol i'r ymatebwyr a oedd yn ymgymryd â'r arolwg Cymraeg gwblhau un asesiad ar bapur, drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chymorth ffeiliau sain Cymraeg a recordiwyd ymlaen llaw a oedd yn darparu cyfarwyddiadau. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng y dulliau cwblhau hyn, sy'n amlygu'r ffaith y dylid ystyried yr asesiadau llythrennedd Saesneg a Chymraeg yn annibynnol ar ei gilydd.

Cynhaliwyd y ddau arolwg gan ddefnyddio gwahanol fethodolegau samplu. Roedd yr arolwg Saesneg yn cynnwys sampl tebygolrwydd o oedolion 16-65 oed sy'n byw yng Nghymru, ac roedd yr arolwg Cymraeg yn cynnwys sampl tebygolrwydd/cwota cymysg o'r boblogaeth o unigolion 16-65 oed sy'n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 'rhugl' neu'n 'gymharol dda'. Noder mai'r unigolion eu hunain oedd yn pennu lefel eu gallu i siarad Cymraeg ac felly, yn anochel, mae hynny'n oddrychol. Mae angen ystyried hyn wrth ddadansoddi'r canlyniadau, a'u cymharu â'r arolwg blaenorol.

Ar gyfer yr arolwg Saesneg, roedd cynllun dau gam ar gyfer y sampl tebygolrwydd. Roedd y cam cyntaf yn samplu cyfres o ardaloedd Cynnyrch Ehangach y Cyfrifiad (haen ganolig) ac roedd yr ail yn samplu cyfres o gyfeiriadau ymhob un o'r Ffeil Cyfeiriadau Post. Cafodd y data ei bwysoli mewn dau gam i) er mwyn gwneud iawn am unrhyw amrywiad o ran y tebygolrwydd samplu a ii) er mwyn gwneud iawn am unrhyw amrywiad a nodwyd o ran y tebygolrwydd ymateb.

Ar gyfer yr arolwg Cymraeg, lluniwyd sampl tebygolrwydd o ardaloedd bach ond o fewn pob ardal a samplwyd, roedd gan y cyfwelydd ryddid i recriwtio fel y gwelodd yn addas, ar yr amod bod rhai cwotâu penodol yn cael eu bodloni a'i fod yn gweithio ar amrywiaeth o ddiwrnodau. Cafodd y data ei bwysoli mewn dau gam i) pwysoliad sgôr tueddfryd i sicrhau bod y dosbarthiadau sampl ar gyfer amrywiaeth eang o amrywiadau yn cyfateb i'r siaradwyr Cymraeg a nodwyd yn y sampl tebygolrwydd a ii) pwysoliad calibrad i ddosbarthiadau oedran a rhanbarth yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol ymhlith y rheini sy'n siarad Cymraeg 'bob dydd' neu 'bob wythnos'.

Cyflawnwyd maint sampl o ychydig dros 2,000 i'r asesiadau llythrennedd a rhifedd (Saesneg) cyffredinol ac ychydig dros 1,000 i'r arolwg llythrennedd Cymraeg.

Gan fod y data yn deillio o arolwg, mae'r canlyniadau yn amcangyfrifon ar sail sampl ac felly yn ddarostyngedig i wahanol raddau o amrywioldeb samplu, h.y. mae gwir werth unrhyw fesur o fewn amrediad gwahanol mewn perthynas â'r gwerth amcangyfrifedig. Mae'r amrediad hwn o ran amrywioldeb samplu yn cynyddu wrth i fanylder y data gynyddu. Ar gyfer yr arolwg Saesneg mae'n bosibl pennu cyfyngau hyder 95 y cant o amgylch yr amcangyfrifon. Er enghraifft, y cyfwng hyder o amgylch yr amcangyfrif o 59 y cant ar Lefel 2 neu'n uwch ar gyfer llythrennedd yw 55.8 i 61.4 y cant. Y cyfwng hyder o amgylch yr amcangyfrif o 21 y cant ar Lefel 2 neu'n uwch ar gyfer rhifedd yw 18.3 i 22.9 y cant. Oherwydd y fethodoleg samplu, nid yw'n bosibl pennu cyfyngau hyder ar gyfer y canlyniadau llythrennedd Cymraeg.

Cyhoeddir manylion llawn methodoleg yr arolwg mewn adroddiad technegol ochr yn ochr â'r adroddiad dadansoddi llawn yn ystod Hydref 2011.

**B. Perthnasedd**

Yn 2009, comisiynodd Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (yr Adran Addysg a Sgiliau bellach) Llywodraeth Cymru gonsortiwm o Miller Research a BMRB (TNS-BMRB bellach) i gynnal arolwg o Anghenion Sgiliau Sylfaenol ymhlith oedolion 16 i 65 oed yng Nghymru, sef yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010. Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf o sgiliau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru yn 2004/05 pan gomisiynodd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol (ar y pryd) arolygon ar wahân i asesu sgiliau sylfaenol ymhlith y boblogaeth o oedran gweithio. Roedd yr arolwg cyntaf a gynhaliwyd yn 2004 yn asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy gyfrwng y Saesneg ymhlith oedolion 16 i 65 oed yng Nghymru. Cynhaliwyd arolwg arall ar wahân yn 2004 yn asesu medrusrwydd o ran darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ymhlith oedolion 16 i 65 oed yng Nghymru a oedd yn siarad Cymraeg.

Bydd canlyniadau'r arolwg yn rhoi data i wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr Sgiliau Sylfaenol ei ddefnyddio i asesu lefelau cyfredol llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd ymhlith oedolion o oedran gweithio, gan gynnwys o fewn is-grwpiau o'r boblogaeth fel grwpiau oedran, rhyw a statws cyflogaeth. Gellir llunio cymariaethau ag arolwg 2004, a fydd yn galluogi defnyddwyr i ystyried lefel y newid fesul is-grŵp ac asesu effaith ymyriadau polisi yn ystod y cyfnod hwnnw. Bydd y data yn gwneud cyfraniad allweddol i'r sail dystiolaeth ar gyfer gwerthuso'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri*, y cyflwynir adroddiad arni ym mis Medi 2011. Mae'r data hefyd yn berthnasol i'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, y Cynllun Llythrennedd Cenedlaethol a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ogystal ag Addysg Oedolion a'r agenda Sgiliau yn gyffredinol.

**C. Cymaradwyedd**

Cynlluniwyd arolwg 2010 cymaint ag oedd yn ymarferol bosibl i ailadrodd arolygon 2004 er mwyn canfod unrhyw newidiadau o bwys o ran lefelau sgiliau ers yr arolygon blaenorol.

Yr un asesiadau a ddefnyddiwyd ar gyfer arolwg 2010 â'r rhai a ddefnyddiwyd yn arolygon 2004. Yr unig newid yw'r ffaith bod y dasg ysgrifennu estynedig wedi cael ei dileu ar gyfer llythrennedd Cymraeg yn 2010, yn dilyn penderfyniad nad oedd y dasg ysgrifenedig yn hanfodol er mwyn asesu lefelau llythrennedd. Er mwyn helpu i gymharu'r ddau arolwg, ailgyflwynwyd data o 2004 gan hepgor y dasg ysgrifenedig. Felly, gellir cymharu'r ddau arolwg, ond bydd y data a gyflwynir yma ar gyfer 2004 yn wahanol i'r dadansoddiad gwreiddiol.

Yn ogystal, cwblhawyd asesiadau 2004 gan y rheini a nododd eu bod yn siarad Cymraeg, naill ai'n rhugl, yn gymharol dda neu rywfaint. Ar gyfer arolwg 2010, cytunwyd mai dim ond y rheini a nododd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n gymharol dda a ddylai gwblhau'r asesiadau.
Ar wahân i'r gwahaniaeth diffiniadol bach hwn, mae angen ystyried hefyd nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn gyson, a'i fod yn anochel yn oddrychol gan fod unigolion yn pennu eu lefel rhuglder eu hunain wrth siarad Cymraeg. Nodir ffigurau cymharol ar gyfer arolwg 2004, ond ni allwn fod yn sicr bod y lefelau o ran y gallu i siarad Cymraeg yn gyson rhwng y ddau sampl, a gallai hyn effeithio ar lefel y newid a welwyd.

**CH. Prydlondeb**

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr arolwg rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2010.

**D. Hygyrchedd**

Bydd y Datganiad Ystadegol hwn a phob adroddiad arall i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru fel dogfennau pdf. Caiff data ategol hefyd ei gyflwyno mewn taenlenni Excel a, maes o law, fel tablau StatsCymru.

**DD. Baich**

Cyflawnwyd maint sampl o ychydig dros 2,000 i'r asesiadau llythrennedd a rhifedd (Saesneg) cyffredinol ac ychydig dros 1,000 i'r arolwg llythrennedd Cymraeg. Cyfanswm yr amser ar gyfer yr arolwg Saesneg ar gyfartaledd oedd 65 munud (gan gynnwys yr asesiadau llythrennedd a rhifedd) a 56 munud ar gyfer cyfweliad yr arolwg Cymraeg (gan gynnwys yr asesiad llythrennedd). Rhoddwyd cymhelliant i'r ymatebwyr gymryd rhan yn yr arolwg hwn, o ystyried hyd yr amser gofynnol. Y gost cydymffurfio gyffredinol amcangyfrifedig oedd 3,120 awr (gweler Cost ymateb i'n harolygon i gael rhagor o wybodaeth.)

**E. Cyfrinachedd**

Mae'r ymchwilwyr a gynhaliodd yr arolwg yn brofiadol o ran gweithio'n unol â phrotocolau rheoli data caeth ym maes data addysg ac yn cydymffurfio â'r safonau gorau posibl o ran diogelu data, preifatrwydd ac arfer moesegol. Mae llawer o'u gwaith arolygu yn ymwneud â dilysu a rheoli data lefel bersonol sy'n deillio o arolygon ar raddfa fawr.

Mae'r ymchwilwyr yn cydymffurfio ag ISO 27001:2005, sef y Safon Rheoli Diogelwch Gwybodaeth ac wedi'u hardystio'n unol â'r safon honno, ac yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 (Z2413668). Maent hefyd yn cydymffurfio â chodau ymddygiad proffesiynol a sefydlwyd gan y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad a'r Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol, er mwyn sicrhau y cedwir pob darn o ddata yn gwbl gyfrinachol.

Mae gan yriant caled gliniaduron pob cyfwelydd system amgryptio lawn sy'n sicrhau diogelwch data cyfeiriadau a chyfweliadau a gaiff ei storio ar y gliniaduron a ddefnyddir i gynnal y cyfweliadau. Yn ogystal â hyn, caiff mynediad i'r system weithredu ei ddiogelu gan ddau gyfrinair sy'n cynnig diogelwch pellach yn erbyn mynediad heb awdurdod i unrhyw ffeil ddata ar y gliniadur a ddefnyddir i gynnal y cyfweliadau. Cynhaliwyd y broses o drosglwyddo data ar gyfer y prosiect hwn gan ddefnyddio twnnel wedi'i amgryptio, yr oedd mynediad iddo wedi'i ddilysu gan ddwy haen ddiogelwch. Nid oes gan liniaduron cyfwelwyr fynediad i'r rhyngrwyd nac e-bost, felly gwnaed pob achos o drosglwyddo data drwy ddeialu'n uniongyrchol i'r sefydliad cynnal, gan felly sicrhau diogelwch y broses trosglwyddo data.

Ar ôl derbyn y data, fe'i proseswyd ac fe'i storiwyd ar yriannau â mynediad cyfyngedig gyda gwybodaeth am gyfeiriadau yn cael ei storio ar wahân i'r data o'r cyfweliadau. Mae camau diogelu ffisegol, electronig a gweithdrefnol cadarn ar waith gan TNS-BMRB i storio a diogelu gwybodaeth rhag mynediad a defnydd heb awdurdod, rhag cael ei newid a rhag cael ei dinistrio. Datblygwyd ein polisïau a'n gweithdrefnau ein hunain er mwyn sicrhau y caiff pob darn o ddata ei storio a'i reoli mewn ffordd ddiogel a rheoledig. Caiff pob darn o ddata a phob dogfen gyfrinachol ei ddinistrio pan na fydd ei angen mwyach.

Roedd yr unigolion a ymatebodd i'r arolygon wedi cytuno i gymryd rhan, ar ôl derbyn gwybodaeth am y broses. Pwysleisiwyd natur wirfoddol yr arolwg a rhoddwyd cyfle i ddarpar ymatebwyr wrthod cymryd rhan. Roedd y rheini a gytunodd i gymryd rhan yn ymwybodol y gallent wrthod ateb unrhyw gwestiwn ac y gallent dynnu'n ôl yn llwyr o'r arolwg ar unrhyw adeg (gan gynnwys ceisiadau ar ôl y cyfweliad i'w data gael ei ddinistrio). Felly hefyd, cytunodd yr unigolion i gymryd rhan yn yr asesiadau llythrennedd a/neu rifedd, ar ôl derbyn gwybodaeth am y broses, a chydymffurfiwyd â'r un egwyddorion ar gyfer y rhan honno o'r gwaith ymchwil.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am ganiatâd i TNS-BMRB ailgysylltu â hwy i gael gwybodaeth ychwanegol pe byddai angen. Gofynnwyd iddynt hefyd a fyddent yn fodlon i TNS-BMRB drosglwyddo eu manylion cyswllt i sefydliadau ymchwil eraill a oedd yn cynnal gwaith ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru. Mae gan yr ymchwilwyr brofiad helaeth o gael caniatâd i ailgysylltu mewn perthynas ag amrywiaeth o arolygon cymdeithasol a lle na chafwyd caniatâd yr ymatebwyr, parchwyd eu dymuniadau.

## Termau a Diffiniadau

**Arolygon 2004**:

Yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru, 2004, a gynhaliwyd gan BMRB

Arolwg o Lefelau Llythrennedd Cymraeg Oedolion sy'n Siarad Cymraeg, 2004, a gynhaliwyd gan Beaufort Research

**Oedolyn:** Diffinnir oedolyn o fewn cwmpas yr adroddiad hwn fel person rhwng 16 oed a 65 oed

**Mae trothwyon lefel** yn cynrychioli cyfaint, neu 'faint' cymwysterau ar lefel benodol o fewn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Pennwyd tri throthwy:

Lefel 1 – cyfaint o gymwysterau ar Lefel 1 sy'n cyfateb i 5 TGAU ar Radd D-G

Lefel 2 – cyfaint o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n cyfateb i 5 TGAU ar Radd A*-C

Lefel 3 – cyfaint o gymwysterau ar Lefel 3 sy'n cyfateb i 2 gymhwyster Safon Uwch

**Safonau Cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd**: Lefel Mynediad 1, Lefel Mynediad 2, Lefel Mynediad 3, Lefel 1 a Lefel 2. Mae'r safonau ar gyfer Lefel 1 a Lefel 2 yn cyfateb i'r rheini sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau Lefel Un a Lefel Dau, yn y drefn honno, yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. O ystyried y gwahaniaethau helaeth o ran yr asesiadau a ddefnyddiwyd, ac o ran strwythur ieithyddol y Gymraeg a'r Saesneg a'r defnydd ohonynt, nid oes cyfatebiaeth uniongyrchol o reidrwydd rhwng lefelau llythrennedd Cymraeg a Saesneg.

**Yn siarad Cymraeg:** Ar gyfer arolwg 2010, mae hyn yn cynnwys y rheini a nododd eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n gymharol dda. Roedd arolwg 2004 yn cynnwys y rheini a oedd yn siarad rhywfaint o Gymraeg hefyd.